

Canllawiau Cefnogi Canolfannau Sgiliau i Gymru

**Cefnogi canolfannau i ddarparu a sicrhau
ansawdd cymwysterau Sgiliau i Gymru**

Fersiwn 1.0

Addaswyd ddiwethaf 3-Ebrill-2023

Hanes adolygu'r ddogfen

Fersiwn	Wedi'i newid gan	Crynodeb o'r newid	Dyddiad cymeradwyo
1.0	Ansawdd a Chyflenwi	Cynhyrchu'r ddogfen	Ebrill 2023

Cymeradwyo

Dyddiad dod i rym	Yn disodli	Dyddiad adolygu'r polisi	Cymeradwywr
Mai 2023	Dogfen newydd V1.0	Tachwedd 2024	Ansawdd a Chyflenwi

Sefydliad City and Guilds Llundain.

Ymgorfforwyd gan Siarter Frenhinol. Sefydlwyd yn 1878.

Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 312832 ac yn yr Alban SC039576.

[EAL \(Excellence, Achievement and Learning Limited\)](#)

Rhif Cofrestru yng Nghymru a Lloegr 02700780

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
1.1. Pwrpas a chwmpas.....	2
2. Darpariaeth a Sicrhau Ansawdd	5
2.1. Darpariaeth addysgu	5
2.2. Cyflawni asesiadau.....	5
2.3. Sicrhau Ansawdd Mewnol.....	7
2.4. Llywodraethu.....	8
3. Sicrhau ansawdd allanol	9
3.1. Gweithgarwch Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol.....	9

1. Cyflwyniad

1.1. Pwrpas a chwmpas

Mae'r cymwysterau Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (CBSE) yng Nghymru yn cael eu cynnig gan City & Guilds ac EAL. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gofynion mewnol ac allanol o ran sicrhau ansawdd, gan ddarparu canllawiau ac enghreifftiau o arferion gorau i gefnogi canolfannau sy'n darparu'r cymwysterau hyn.

1.1.1. Cyfres cymwysterau

Enw Cymhwyster City & Guilds	Rhif y Cymhwyster	Cyfeirnod QiW
Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)	8042-01	C00/4092/6
Cymhwyster Craidd mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)	8042-02	C00/4414/0
Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Gosod Brics	8042-03	C00/4169/2
Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Coed Pensaernïol	8042-04	C00/4169/2
Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Coed ar y Safle	8042-05	C00/4169/2
Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Gosod Fframiau Pren	8042-06	C00/4169/2
Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Peintio ac Addurno	8042-07	C00/4169/2
Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Plastro Soled	8042-08	C00/4169/2
Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Leinio Sych – Gosod	8042-09	C00/4169/2
Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Tir	8042-10	C00/4169/2
Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Toi - Llechi a Theils	8042-11	C00/4169/2
Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) - Teilsio Waliau a Lloriau	8042-23	C00/4169/2
Adeiladu (Lefel 3) – Leinio Sych	8042-18	C00/4327/0
Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Toi - Llechi a Theils	8042-20	C00/4327/1
Adeiladu (Lefel 3) – Gweithrediadau Sifil – Gwaith Tir	8042-19	C00/4327/2

Adeiladu (Lefel 3) – Gosod Fframiau Pren	8042-15	C00/4327/4
Adeiladu (Lefel 3) - Gosod Brics	8042-12	C00/4169/3
Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Coed Pensaernïol	8042-13	C00/4327/5
Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Coed ar y Safle	8042-14	C00/4283/1
Adeiladu (Lefel 3) – Peintio ac Addurno	8042-16	C00/4327/6
Adeiladu (Lefel 3) – Plastro Soled	8042-17	C00/4327/7
Adeiladu (Lefel 3) - Teilsio Waliau a Lloriau	8042-21	C00/4327/8
Adeiladu (Lefel 3) – Gweithrediadau Peiriannau	8042-22	C00/4491/9

Enw Cymhwyster EAL	Rhif y Cymhwyster	Cyfeirnod QiW
Dilyniant mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) – Plymio a Gwresogi	C00/4169/0A	C00/4169/0
Dilyniant mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) – Gosod Systemau ac Offer Electro-dechnegol	C00/4169/0B	C00/4169/0
Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu EAL (Lefel 3) - Gosod Gwres ac Awyru	C00/4278/5	C00/4278/5
Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) - Crefftwr Gwresogi ac Awyru	C00/4278/6	C00/4278/6
Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) – Plymio a Gwresogi	C00/4278/7	C00/4278/7
Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) - Gosod Electro-dechnegol	C00/4278/8	C00/4278/8

1.1.2. Nodweddion asesu'r cymhwyster

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r cymwysterau wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd ar sail eu nodweddion asesu cyffredin.

Lefel 2

Cymhwyster	Dull asesu	Nodweddion
Craidd	Prawf gwybodaeth ar sgrin	Wedi'i osod yn allanol, a'i farcio'n allanol
	Prosiect	Wedi'i osod yn allanol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol
	Trafodaeth dan arweiniad	Wedi'i osod yn fewnol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol
Sylfaen	Prawf gwybodaeth ar sgrin	Wedi'i osod yn allanol, a'i farcio'n allanol
	Prosiect	Wedi'i osod yn allanol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol
	Trafodaeth dan arweiniad	Wedi'i osod yn fewnol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol
Dilyniant	Prawf gwybodaeth ar sgrin	Wedi'i osod yn allanol, a'i farcio'n allanol
	Prosiect	Wedi'i osod yn allanol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol
	Trafodaeth dan arweiniad	Wedi'i osod yn fewnol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol

Lefel 3

Cymhwyster	Dull asesu	Nodweddion
	Prosiect	Wedi'i osod yn allanol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol
	Trafodaeth Broffesiynol	Wedi'i osod yn allanol, a'i farcio'n allanol
	Prawf Diogelwch Critigol (dim ond yn berthnasol ar gyfer crefftau Gosod a Gwresogi ac Awyru Electrodechnegol)	Wedi'i osod yn allanol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol

2. Darpariaeth a Sicrhau Ansawdd

2.1. Darpariaeth addysgu

Mae'r cymwysterau hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i ganolfannau gynllunio eu darpariaeth addysgu eu hunain. Mae hyn yn rhoi cyfle i ystyried graddfa a chost deunyddiau i ddarparu gwybodaeth sylfaenol o ansawdd da a gweithgareddau ymarfer a fydd yn olrhain dilyniant dysgwyr ar eu taith addysgu ac yn paratoi'r dysgwr ar gyfer gofynion yr asesiad.

Efallai y bydd gan y ganolfan amrywiaeth o ddeunyddiau hyfforddi priodol neu efallai y byddant yn dewis aildefnyddio papurau asesu ffurfiannol a thasgau ymarferol, o gymwysterau a gyflwynwyd yn flaenorol y gellir eu defnyddio i asesu dilyniant y dysgwr yn ffurfiannol, a pha mor barod ydynt ar gyfer canlyniadau'r asesiad ar eu cymhwyster.

Mae'r nodweddion hyn yn nodweddiadol o arferion da a gallai'r canolfannau sy'n darparu'r cymwysterau ystyried yr adnoddau hyn, gan gefnogi ansawdd eu taith Addysgu, ymgysylltu â chyflogwyr a pharatoi asesiadau.

- Sganio sgiliau a chynllun hyfforddi (wedi'u cyfuno â gofynion y cyflogwr)
- Cynlluniau gwaith
- Cynlluniau gwersi
- Adnodd dysgu ac addysgu gan gynnwys deunyddiau cyflwyno
- Aseidiadau ffurfiannol
- Cynllunio ac olrhain
- Cofnod dysgu ailsefyll aseidiadau
- Adolygiad o'r dysgwyr ac ymgysylltu â'r cyflogwr/y diwydiant
- Arolygon Dysgwyr/Cyflogwyr

2.2. Cyflawni aseidiadau

Defnyddir cofnodion a gweithgareddau arferol i bennu a yw trefniadau asesu, dulliau a phenderfyniadau'n bodloni gofynion ansawdd cymwysterau Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu Sgiliau i Gymru.

- Cynllun asesu
- Cofnodion asesu
- Tystiolaeth i gefnogi RPL
- Tystiolaeth/adroddiadau'r dysgwr
- Tystiolaeth ffotograffig o'r prosiect ymarferol
- Recordiadau sain o drafodaethau dan arweiniad
- Arsylwadau

- Cofnodion presenoldeb
- Cofnodion arholiadau (EAF4 ar gyfer EAL a chynlluniau seddi)

2.2.1. Tystiolaeth ffotograffig/fideo

Rhaid casglu tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau asesu a'u nodi'n glir a'u mapio i ddatganiadau perfformiad penodol.

Ni ddylai recordiadau fideo neu sain fod yn hirach na 10 munud a dylid nodi'r amser arnynt er mwyn cofnodi'r union amser y bydd yr eitemau allweddol o dystiolaeth yn digwydd.

Dylai tystiolaeth ffotograffig neu fideo ddilyn gofynion GDPR, a bydd angen cael caniatâd unrhyw berson arall sy'n ymddangos yn y llun neu'r fideo.

Efallai y bydd ffotograffau/fideos yn cael eu storio'n ddigidol.

Er y gallai'r math o dystiolaeth a maint y dystiolaeth honno amrywio'n naturiol rhwng gwahanol fathau o weithgarwch, dylid defnyddio'r isod fel canllaw i bennu symiau priodol o dystiolaeth.

Ffotograffau cyfnodol – byddai'r rhain yn dangos y dysgwr yn gweithio ar y dasg/gwaith.

Lluniau o'r dasg/gwaith gorffenedig – byddai'r rhain yn cael eu tynnu o wahanol onglau a safbwyntiau i ddangos y dasg/gwaith gorffenedig o sawl cyfeiriad. Dylai'r dysgwr a'r asesydd neu'r cyflogwr eu llofnodi i ddilysu'r gwaith.

Sylfaen

Opsiwn masnachol 1

1. Llun cyfnodol 1 – ar ôl cwblhau tua 50% o'r dasg/gwaith
2. Llun o'r dasg neu'r gwaith gorffenedig

Opsiwn masnachol 2

1. Llun cyfnodol 1 – ar ôl cwblhau tua 50% o'r dasg/gwaith
2. Llun o'r dasg neu'r gwaith gorffenedig

Cyfanswm – O leiaf 4 llun

Dilyniant

1. Llun cyfnodol 1 – ar ôl cwblhau tua 50% o'r dasg/gwaith
2. Llun cyfnodol 2 – ar ôl cwblhau tua 75% o'r dasg/gwaith
3. Llun o'r dasg neu'r gwaith gorffenedig

Cyfanswm – O leiaf 3 llun

Lefel 3

Ar gyfer tasgau unigol Mawr:

1. Llun cyfnodol – ar ôl cwblhau tua 25% o'r dasg
2. Llun cyfnodol – ar ôl cwblhau tua 50% o'r dasg
3. Llun cyfnodol – ar ôl cwblhau tua 75% o'r dasg
4. Llun o'r dasg orffenedig
5. Llun o'r dasg orffenedig
6. Fideo byr neu lun o'r dasg orffenedig (yn lle ffotograff 4, 5 a 6)

Ar gyfer nifer o dasgau llai:

1. Llun cyfnodol – ar ôl cwblhau tua 50% o'r tasgau
2. Llun o'r tasgau gorffenedig
3. Fideo byr neu lun o'r tasgau gorffenedig (yn lle ffotograff 3 a 4)

Ni ddylai'r prosiect L3 cyffredinol gynnwys **dim llai** na 6 ffotograff i gyd ond byddai nifer llai ohonynt os ydych chi'n defnyddio fideos byr.

2.3. Sicrhau Ansawdd Mewnol

Mae'r cofnodion hyn yn nodi bod asesiadau sicrhau ansawdd mewnol cadarn ar waith ac maent yn cael eu defnyddio i werthuso trefniadau sicrhau ansawdd mewnol y ganolfan, sut mae'r trefniadau hynny'n cael eu rhoi ar waith a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i staff fel; adborth, safoni a datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â'r meysydd technegol maent yn eu darparu ar gyfer dysgu ac asesu.

Dyma'r mathau o gofnodion a ddefnyddir i werthuso trefniadau Sicrhau Ansawdd Mewnol fel arfer:

- Arsylwadau'r Tiwtor/Asesydd
- Arsylwadau'r marciwr
- Arsylwadau'r goruchwylwyr
- Trafodaethau â'r dysgwr
- Trafodaethau â'r asesydd
- Adroddiadau samplu (ffurfiannol a chrynodol)
- Cynlluniau samplu
- Cofnodion cywirdeb a samplu, gan gynnwys adborth gan yr asesydd
- Cofnodion safoni
- Y Polisi a'r drefn Sicrhau Ansawdd Mewnol
- Strategaeth Sicrhau Ansawdd Mewnol gan gynnwys gwybodaeth RAG/Sgôr risg
- Cynlluniau cymorth Asesydd a Sicrhau Ansawdd Mewnol

Bydd canolfannau a chyflogwyr yn cydweithio i gytuno ar y mesurau a fydd yn cael eu cymryd yn fewnol i sicrhau ansawdd y dystiolaeth a gyflwynir yng nghanllaw cadarnhau'r cyflogwr.

2.4. Llywodraethu

Cofnodion a gweithgareddau a ddefnyddir fel arfer i werthuso ansawdd trefniadau gweinyddol mewnol, ansawdd staff mewnol ac arbenigedd a chymhwysedd staff mewnol:

- Polisiâu a gweithdrefnau
- Trefniadau cofrestru ac ardystio
- Arbenigedd, cymhwysedd a chymwysterau proffesiynol y staff
- Cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus y staff
- Tystiolaeth o apeliadau a'u canlyniadau
- Cofnod o unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a mesurau rheoli
- Tystiolaeth i gefnogi gofynion asesu penodol (PAR)
- Cynnal proffil y ganolfan
- Cofnodion o drefniadau trydydd parti a/neu drefniadau is-gontractwr

3. Sicrhau ansawdd allanol

3.1. Gweithgarwch Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol

Bydd gweithgareddau sicrhau ansawdd allanol y Sefydliadau Dyfarnu yn canolbwyntio ar ansawdd yr asesiadau sy'n cael eu darparu a chanlyniadau'r asesiadau. Bydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn defnyddio'r polisïau, y gweithdrefnau, y dogfennau a'r dystiolaeth sy'n cael sylw yn y ddogfen hon i werthuso trefniadau sicrhau ansawdd, darparu asesiadau a llywodraethu mewnol.

Yn dilyn gweithgarwch y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol, bydd adroddiad Sicrhau Ansawdd Allanol a rennir yn rhoi adborth ar ddarpariaeth asesu a sicrhau ansawdd mewnol y ganolfan.

Bydd yr adroddiad a'r adborth yn rhoi gwybod i'r ganolfan am arferion da a nodwyd yn ystod y gweithgaredd. Bydd yr adroddiad yn nodi risgiau, camau gwella a, lle bo'n briodol, unrhyw sancsiwn a allai gael ei gysylltu â'r cymhwyster.

Cysylltu â ni

City & Guilds

E: skillsforwales.customer@cityandguilds.com

EAL

E: skillsforwales.customer@eal.org.uk

Ffôn: 01924 930800

Llinellau ar agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 08.00 i 18.00 GMT

City & Guilds | EAL

Mae City & Guilds ac EAL yn ddau gorff dyfarnu sydd wedi dod ynghyd i gydweithio ar ddatblygu cyfres o gymwysterau adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu i Gymru.

Mae gennym dros 140 mlynedd o brofiad o ddatblygu cymwysterau ac asesiadau yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Mae City & Guilds ac EAL wedi rhannu perthynas wych erioed, felly mae hon wir yn bartneriaeth â hanes o lwyddo sy'n canolbwyntio'n llwyr ar helpu'r sector i wireddu potensial y sector yn y dyfodol.

Rydyn ni'n credu'n gryf mewn grymuso pobl gyda chyfleoedd ar gyfer y dyfodol, a'n nodau ar gyfer y gyfres newydd hon o gymwysterau yw helpu pobl i gael gwaith, i gamu ymlaen yn y gwaith ac i fynd ymhellach.

www.cityandguilds.com

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir wrth fynd i'r wasg. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau City & Guilds/EAL yn cael eu datblygu a'u gwella'n barhaus, a chedwir yr hawl i newid cynnyrch a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds/EAL dderbyn atebolrwydd am golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

@2021 Sefydliad City & Guilds of London. Cedwir pob hawl. Mae City & Guilds yn nod masnach i Sefydliad City & Guilds of London, elusen a sefydlwyd i hyrwyddo addysg a hyfforddiant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (312832) a'r Alban (C03 9576).

EAL (Excellence, Achievement & Learning Limited)

Rhif Cofrestru yng Nghymru a Lloegr 02700780

Swyddfa gofrestredig: EAL, Unit 2, The Orient Centre, Greycine Road, Watford, Herts, WD24 7GP

skillsforwales.wales/cy